# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PANEL LLOFNODWYR CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, CANOLFAN DDINESIG, ABERTAWE DYDD LLUN, 20 MAWRTH 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd J E Burtonshaw (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Yn Cynrychioli Sefydliadau:**
Y Capt Chris Evans – y Fyddin
Swyddog Gwarantedig Steve Jones – Y Llynges
Andy Grove – Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Tony Colburn – Y Lleng Brydeinig Frenhinol (y Mwmbwls a De Gŵyr)
Terry Bravin – Y Lleng Brydeinig Frenhinol (Abertawe)
Adrian Rabey – Bwrdd Hyfforddi Prydeinig
Antony Rabey – Aartic Training
Nicola Russel-Brooks – Age Cymru Bae Abertawe

**Hefyd yn bresennol:**
Laura Dunn a Robert Wiltshire – Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

**Swyddogion**
Spencer Martin
Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol

| | |
|---|---|
| John Birmingham | Digwyddiadau Arbennig |
| Gareth Borsden | Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**:
Is-gomander R Fleming, D Singletary, T Idris, P Whapham, K Bogdan, Arweinydd Scwadron P Flower, E Warburton, P Neville, J Preston, A Fisher, V Williams a Chapten R Griffiths

### 8 DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Dim.

### 9 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2016 yn gofnod cywir, yn ddibynnol ar ddiwygio Cofnod 7 (tudalen 3) i ddarllen y Llynges Frenhinol

### 10 PROSIECT CEFNOGI TROSGLWYDDO STAFF MILWROL (STOMP). (LAURA DUNN - Y GWASANAETH PRAWF)

Rhoddwyd cyflwyniad trosolwg llawn gwybodaeth i'r panel ar y prosiect SToMP gan Laura Dunn, rheolwr prosiect Prosiect Cefnogi Trosglwyddo Personél Milwrol

(SToMP) y Gwasanaeth Prawf gyda chefnogaeth gan Robert Wiltshire, Swyddog Cyswllt â Charchardai SToMP.

Amlinellwyd ganddynt cefndir y cynllun a ddeilliodd o Adolygiad Philips yn 2014, yn ogystal â phrif ffocws ac amcanion y prosiect, y cyllid a sicrhawyd gan Gronfa Cyfamod y Weinyddiaeth Amddiffyn, y prif amcanion, y dulliau cyflwyno a'r cysylltiadau ardderchog a sefydlwyd gyda swyddogion cyswllt â charchardai.

Amlinellwyd eu bod yn cyfweld ag unrhyw un sy'n cael ei nodi'n gyn-weithiwr y lluoedd arfog yn ystod y broses arestio, mewn ymgais i ddatblygu ymagwedd gydlynol a rhoi cymorth pan fydd pobl yn y system cyfiawnder troseddol.

Nodwyd sut y maent yn ceisio datblygu cyfeirlyfr o wasanaethau i gynorthwyo eu cleientiaid.

11 **<u>Y DIWEDDARAF GAN AELODAU'R PANEL.</u>**

Rhoddwyd diweddariadau ar lafar gan Swyddogion ac Aelodau'r Panel ynglŷn â'r gweithgareddau presennol ac arfaethedig, digwyddiadau a llwythi gwaith eu grwpiau/sefydliadau priodol, yn cynnwys y meysydd canlynol.

<u>Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig/Artic Training</u>
Dywedodd Adrian ac Antony Rabey eu bod wedi cofrestru 220 o bobl yn genedlaethol ar gyrsiau hyfforddiant ers y cyfarfod diwethaf, gyda 46 ohonynt yn dod o hyd i gyflogaeth.

Cyfeiriwyd at y cysylltiadau a ddatblygwyd â Charchar Abertawe o ran hyfforddiant.

Roedd y ganolfan galw heibio yn Nhrefansel ar agor a gallai aelodau o'r panel ymweld â hi a'i defnyddio.

Dywedwyd eu bod wedi cael eu hachredu'n ddiweddar fel darparwr BTEC a bydd hyn yn gymorth pellach o ran datblygu cyrsiau hyfforddiant.

Y Lleng Brydeinig Frenhinol
Rhoddwyd diweddariad gan Tony Colburn ar y Gwasanaeth Coffa diweddar a llwyddiannus iawn a gynhaliwyd yn Eglwys yr Holl Saint i goffáu 15 o ddynion o'r Rhyfel Byd Cyntaf nas cofnodwyd ar y Gofeb wreiddiol yno. Bu llawer o ddisgynyddion y milwyr hynny'n bresennol, a chynhaliwyd cyngerdd yn dilyn y digwyddiad i godi arian dros yr Apêl Pabïau.

Dywedodd Terry Bravin fod dros £100,000 wedi'i godi yn Abertawe dros yr Apêl Pabïau'r llynedd.

<u>Gwasanaeth Tân</u>
Dywedodd Andy Grove fod y gwasanaeth yn cynnal cyfres o ddiwrnodau agored yn y misoedd i ddod ac roedd croeso i aelodau'r panel fynychu a gosod stondin yn y digwyddiadau.

Y Llynges

Dywodedd Steve Jones fod yr uned newydd ym Mae Caerdydd ar gyfer y Llynges Frenhinol Wrth Gefn, y Mor-filwyr Brenhinol Wrth Gefn a Chadetiaid yn agor ym mis Hydref 2019. Bydd hyn yn helpu gyda recriwtio a chyfleoedd am hyfforddiant.

Dywedodd fod y Llynges Frenhinol Wrth Gefn wedi bod yn Sgwâr y Castell gyda'i hôl-gerbyd ar sawl achlysur ac amlinellwyd cost yr ymweliadau. Gofynnodd y cadeirydd iddo e-bostio manylion costau iddi'n uniongyrchol oherwydd bod arian penodol yn y gyllideb ar gyfer digwyddiadau'r lluoedd arfog bellach.

Age Cymru

Rhoddwyd adroddiad gan Nicola Russel-Brooks, gan amlygu'r pynciau canlynol:

- Taflen ymgyrch newydd Jo Cox
- Gwasanaeth cyfeillio
- Mae dau wasanaeth newydd wedi cael eu lansio – y Gwasanaeth Atwrneiaeth Arhosol a'r Gwasanaeth Apelio (yn erbyn penderfyniadau'r Lwfans Byw i'r Anabl, y DLA, a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol,PIP).
- Gwasanaeth cyfreithiol am ddim unwaith yr wythnos
- Gwasanaeth Cynllunio Gydol Oes, i'w lansio ym mis Ebrill
- Rhoi cyfarpar gan Tesco - blychau cadw allweddi'n ddiogel/cloeon ffenestri etc a pheth setiau o ddillad sydd ar gael am ddim i'r cyhoedd
- Gwasanaethau newydd yn cael eu lansio ym Mhen-y-Bont ar Ogwr a Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Digwyddiadau Arbennig

Cadarnhaodd John Birmingham fod Diwrnod y Lluoedd Arfog wedi'i gadarnhau ar gyfer 24 Mehefin a Distawrwydd yn y Sgwâr ar gyfer 11 Tachwedd.

Cynhelir y Sioe Awyr ar 1 a 2 Gorffennaf a bydd cynrychiolaeth sylweddol gan y Lluoedd Arfog.

Y Fyddin

Cyfeiriodd Chris Evans at y materion canlynol:

- Digwyddiad llwyddiannus GIG/Cyn-filwyr a gynhaliwyd yn y Grange gyda dros 90 o bobl yn bresennol
- Cyllid wedi'i sicrhau a phaneli'r gasebo wedi cyrraedd, ar gyfer digwyddiadau
- Mae recriwtio ar 102% ar hyn o bryd gyda phobl ar y rhestr aros
- Cynhelir Diwrnod Ymwybyddiaeth o'r Diwydiant Brigâd ym mis Mai, gyda mwy na 20 o stondinau
- Diwrnod y Lluoedd Arfog – trefniadau wedi'u gwneud a bydd nifer o unedau'n bresennol ar y diwrnod
- Sioe Awyr – trafodaethau gyda swyddogion DASA yn parhau
- Cadarnhad presenoldeb yng Ngŵyl Traeth Aberafan
- Cyllid ar gael o hyd ar gyfer cynlluniau o gronfa gyllido'r Weinyddiaeth Amddiffyn

Cadeirydd
Dywedodd y Cynghorydd Burtonshaw fod yna bellach gyllideb benodol ar gyfer digwyddiadau'r lluoedd arfog, a dywedodd ei bod wedi bod mewn cysylltiad â Chymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA) ar amrywiaeth o faterion sy’n ymwneud â chyn-filwyr. Amlinellodd y digwyddiad llwyddiannus i gyn-filwyr a phobl ifanc yn Stadiwm Liberty ar gyfer gêm yr Elyrch yn erbyn Burnley.

Spencer Martin
Dywedodd fod rhestr benodol gan Lywodraeth Cymru o fudd-daliadau y gallai'r sawl a oedd yn gymwys i’w derbyn hefyd elwa o wasanaethau ychwanegol am ddim. Serch hynny, nid oedd y rhestr hon yn cynnwys pensiynau cyn-filwyr. Mae'n ymchwilio i'r rhesymau dros hyn a dywedodd y byddai'n adrodd yn ôl ar ei gynnydd maes o law.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.55 pm

**CADEIRYDD**